# Asesiad Effaith Cydraddoldeb
# Polisi Diogelu Data

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar, est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Polisi Diogelu Data |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

| |
|---|
| Pwrpas y polisi ydi gosod allan cyfrifoldebau staff o ran cydymffurfiol efo deddfwriaeth diogelu data.<br>Mae'r polisi wedi ei ddiwygio'n helaeth oherwydd fod deddfau newydd wedi dod i rym. |

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

| |
|---|
| Helen Parry, Rheolwr Gwybodaeth |

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

| |
|---|
| 18/06/18 |

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

| |
|---|
| Staff y Cyngor |

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion cydraddoldeb?

| |
|---|
| Mae'r rhan fwyaf o'n ymateb i'r ddeddf yn ymwneud â gweithdrefnau mewnol felly nid ydym wedi ymgysylltu. Serch hynny byddwn yn monitro unrhyw sylwadau y derbyniwn yn ôl ar y ddeddf er mwyn adolygu ein trefniadau. |

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

| |
|---|
| Dim yn berthnasol |

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Nid ydym yn ymwybodol o fylchau ar hyn o bryd ond byddwn yn monitro'r ymateb i'r ffordd rydym yn gweithredu'r ddeddf.

## 3) Adnabod yr Effaith

### 3.1 Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau yn y polisi neu wasanaeth yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb.

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith?** (dylech ddileu'r rhai amherthnasol) | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedl-igrwydd)** | Positif | Mae'r ddeddf yn diogleu unrhyw ddata ynglŷn â hil a chenedligrwydd. Serch hynny nid yw'r ddeddf yn sicrhau fod pobl yn cael gweld eu gwybodaeth yn eu iaith eu hunain dim ond fod gwybodaeth yn ddealladwy i'r person 'cyffredin'.<br><br>Bydd hyn yn derbyn sylw fel rhan o'r canllawiau a byddai unrhyw achos yn cael ei ystyried yn unigol. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Mae'r ddeddf yn dweud fod yn rhaid i ni drin y Gymraeg â'r Saesneg yn gyfartal. Bydd y Cyngor yn darparu crynodeb Saesneg o ddeunyddiau Cymraeg ond bydd yn gofyn i'r ymgeisydd drefnu cyfieithiad llawn ar ei liwt ei hun. |
| **Anabledd** | Positif | Mae'r ddeddf yn diogelu unrhyw ddata ynglŷn â iechyd unigolion.<br><br>Nid yw'r ddeddf yn sicrhau fod pobl yn cael gweld eu gwybodaeth mewn fformat sy'n addas iddynt e.e. BSL neu awdio. Serch hynny, byddwn yn sicrhau bod ein canllawiau yn nodi'r angen i wneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth mewn fformat addas.<br><br>Mae'r ddeddf yn datgan y gellir peidio a rhoi gwybodaeth i berson pe fyddai hynny'n effeithio'n andwyol ar eu iechyd meddwl. Gan fod mwyafrif o geisiadau'r Cyngor yn dod i'r adran Oedolion a Plant, byddai unrhyw gais gall ddisgyn i'r categori hyn yn cael ei drafod efo gweithiwr cymdeithasol y person. Byddai'n rhaid seilio unrhyw benderfyniad i wrthod ar farn y gweithiwr proffesiynol hynny. |
| **Rhyw** | Dim | Ni fydd y ddeddf yn cael effaith, hyd y gwyddom, ar sail rhyw |
| **Oedran** | Positif | Mae'r ddeddf yn diogelu hawl plant sy'n ddigon aeddfed i |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddeall yr wybodaeth. Fel arall ni ragwelir y bydd y ddeddf yn cael effaith ar y nodwedd yma.<br><br>Pan yn casglu data gan blentyn mae'n bwysig fod y datganiad preifatrwydd yn ddealladwy iddynt. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif | Mae'r ddeddf yn diogelu unrhyw ddata ynglŷn a chyfeiriadedd rhywiol person. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Positif | Mae'r ddeddf yn diogelu unrhyw ddata ynglŷn â chrefydd person |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif | Mae'r ddeddf yn diogelu unrhyw ddata ynglŷn â ailbennu rhywedd |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | dim | Ni ragwelir y bydd y ddeddf yn cael effaith ar y nodwedd yma. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | dim | Ni ragwelir y bydd y ddeddf yn cael effaith ar y nodwedd yma. |

**3.2 Ydi'r polisi neu wasanaeth yn cael effaith ar eu Dyletswyddau Cyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?** (Dylid dileu'r rhai amherthnasol) | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Gall y ddeddf gael gwared ar gamwahaniaethu , aflonyddu ac erledigaeth drwy roi mwy o ddiogelwch i breifatrwydd person |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Nac ydi | |
| **Meithrin perthnasau da** | Nac ydi | |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Mae'r polisi yn cael effaith bositif ar nifer o nodweddion cydraddoldeb ond efallai nad yw'r gwahaniaeth yn ddigon i ddweud fod hynny'n effaith sylweddol. |

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Nac ydi |

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewisiwch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | X |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

**4.4 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Er nad oes effeithiau negyddol yn cael eu hachosi gan y ddeddf mae yna ffyrdd y gellir gwella mynediad rhai pobl at eu gwybodaeth. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod sylw dyledus yn cael ei roi i amrywiaeth o hawliau mynediad yn y canllawiau ar brosesu ceisiadau (e.e. dod i mewn i weld cais/darparu copïau print bras) fel bod staff yn gwybod beth ydi eu cyfrifoldebau yn hyn o beth. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Dim yn berthnasol |

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Bydd y Grwp Rheoli a Diogelwch Gwybodaeth yn cadw trosolwg o'r polisi. |